Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Datganiad Polisi yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol

## Diffiniad o Ddigwyddiad Mawr a Phenodi Eiriolwr

Dyddiad

Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder

# Cynnwys

**Datganiad Polisi yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol** **1**

Diffiniad o Ddigwyddiad Mawr a Phenodi Eiriolwr 1

**Cynnwys** **1**

**Cyflwyniad** **3**

Beth yw'r IPA? 4

Beth yw Digwyddiad Mawr? 4

**Rhan 1: Diffinio Digwyddiad Mawr** **5**

1.1 Cefndir 5

1.2 Diffinio Digwyddiad Mawr 5

1.3 Ystyriaethau'r Ysgrifennydd Gwladol 8

1.4 Digwyddiadau Mawr yng Nghymru 9

1.5 Apeliadau 10

**Rhan 2: Penodi'r Eiriolwr Sefydlog ar gyfer Digwyddiad Mawr** **11**

2.1 Cefndir 11

2.2 Penodi Eiriolwr 11

2.3 Digwyddiadau Mawr yng Nghymru 12

**Rhan 3: Penodi Eiriolwyr Ychwanegol ar gyfer Digwyddiad Mawr** **13**

3.1 Cefndir 13

3.2 Penodi Eiriolwyr Ychwanegol 13

3.3 Digwyddiadau Mawr yng Nghymru 15

**Rhan 4: Dirwyn Cefnogaeth IPA i Ben** **16**

4.1 Dirwyn Cefnogaeth IPA i Ben 16

4.2 Terfynu Penodiad Eiriolwr 17

**Atodiadau** **18**

Atodiad A: Llwybr Penderfyniad ynghylch Penodi Eiriolwyr 18

# Cyflwyniad

Bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol (IPA) yn cefnogi pobl sy’n ddioddefwyr mewn digwyddiadau mawr yng Nghymru neu Loegr. Mae'r datganiad polisi hwn yn cyflwyno polisi’r Llywodraeth ar gyfer penderfynu a yw digwyddiad yn ddigwyddiad mawr at ddibenion penodi'r IPA. Mae hefyd yn cyflwyno’r ffactorau y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn eu hystyried wrth wneud y penderfyniad i ddatgan digwyddiad mawr a phenodi eiriolwr.

Cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i sefydlu IPA rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2018. Cawsom 42 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad; roedd 33 o ymatebion o blaid sefydlu IPA. Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder grynodeb lefel uchel o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar 1 Mawrth 2023.[1]

Yn ogystal â chyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, fe wnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd gyhoeddi ei fwriad i sefydlu IPA gan gyflwyno mesurau yn y Bil Dioddefwyr a Charcharorion i gyflawni hyn. Derbyniodd y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024.[2] Mae'r Ddeddf yn rhoi manylion beth yw digwyddiad mawr, sut mae eiriolwyr yn cael eu penodi, beth yw eu swyddogaethau, adrodd a rhannu gwybodaeth.

Mae canllawiau ychwanegol ar gyfer yr eiriolwyr, a manylion gweithredol eraill, wedi cael eu cyhoeddi ar wahân.

Oni nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriadau at yr 'Ysgrifennydd Gwladol' yn y ddogfen hon yn cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Mae unrhyw gyfeiriadau at 'ddioddefwr' neu 'ddioddefwyr'’ yn cyfeirio at ddioddefwr mewn digwyddiad mawr fel y'i diffinnir gan adran 34(5) o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024:

“mae 'dioddefwyr’, mewn digwyddiad mawr, yn golygu -

(a) Unigolion sydd wedi dioddef niwed o ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad (pa un a yw'r niwed hwnnw yn niwed difrifol ai peidio), a
(b) teulu agos neu ffrindiau agos unigolion sydd wedi marw neu wedi dioddef niwed difrifol o ganlyniad uniongyrchol i’r digwyddiad.”

Y ddogfen hon a fydd yn llywio penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch datgan digwyddiad mawr a phenodi eiriolwr. Bydd y Llywodraeth yn ei hadolygu a’i diweddaru ar adegau priodol.

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/63ff167ce90e0740d3cd6f0b/public-advocate-feedback.pdf
[2] Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024

## Beth yw’r IPA?

Mae’r IPA yn swyddfa statudol newydd a sefydlwyd i gefnogi unigolion sy’n ddioddefwyr mewn digwyddiadau mawr. Mae'r swyddfa yn cynnwys Eiriolwr Sefydlog sydd yn ei swydd yn barhaol, ynghyd â rhestr o unigolion addas y gellir eu penodi'n eiriolwyr ychwanegol i gefnogi'r ymateb i ddigwyddiad mawr fel y bernir ei fod yn angenrheidiol ac yn briodol. Ceir ysgrifenyddiaeth IPA barhaol i gefnogi'r Eiriolydd Sefydlog i gyflawni eu swyddogaethau.

## Beth yw Digwyddiad Mawr?

Diffinnir digwyddiad mawr yn adran 34(2) o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 fel “digwyddiad (a) sy'n digwydd yng Nghymru neu Loegr ar ôl [18 Medi 2024], (b) sy’n achosi marwolaeth, neu niwed difrifol i, nifer fawr o unigolion, ac (c) y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi datgan yn ysgrifenedig ei fod yn ddigwyddiad mawr at ddibenion [penodi eiriolwyr ar gyfer dioddefwyr digwyddiadau mawr]'.

Ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru, dim ond ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddatgan digwyddiad mawr a phenodi eiriolwr. Mae rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau yng Nghymru i’w chael yn 1.4, 2.3. a 3.3.

Mae’n werth nodi nad yw'r term “digwyddiad mawr” yn unigryw i bolisi IPA, ac ni cheir ychwaith ddiffiniad safonol, ac felly gall gwahanol gyrff ddefnyddio gwahanol ddehongliadau o'r term yn gyfreithlon. Ni fydd defnydd un corff o'r term yn rhwymo nac yn dylanwadu ar benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud datganiad dan Ran 2 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024. Y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 sy’n diffinio'r paramedrau ar gyfer datgan digwyddiad mawr a phenodi eiriolwr, ac mae'r diffiniad hwn ar wahân i ddiffiniadau eraill dan Gyd-raglen Cydweithredu’r Gwasanaethau Brys (JESIP) neu Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Dim ond digwyddiadau sy'n dod o dan adran 34(2) y Ddeddf sy'n cyfrif fel digwyddiadau mawr at ddibenion IPA.

# Rhan 1: Diffinio Digwyddiad Mawr

Mae'r rhan hon yn rhoi manylion y diffiniad o ddigwyddiad mawr, gan gynnwys y ffactorau y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried cyn datgan digwyddiad mawr.

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Mae'r Rhan hon yn amlinellu rhagor o fanylion i gefnogi'r diffiniad deddfwriaethol ac yn egluro o dan ba amgylchiadau y gellir datgan digwyddiad mawr at ddibenion yr IPA.

1.1.2 Saif y penderfyniad i ddatgan digwyddiad o dan Ran 2 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Fodd bynnag, pe bai'r angen yn codi (os nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol ar gael er enghraifft), gallai'r penderfyniad i ddatgan digwyddiad mawr a phenodi eiriolwr gael ei ddirprwyo i Weinidog Cyfiawnder arall.

## 1.2 Diffinio Digwyddiad Mawr

1.2.1 Mae adran 34(2) o Ran 2 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 yn diffinio digwyddiad mawr fel "digwyddiad (a) sy'n digwydd yng Nghymru neu Loegr ar ôl [18 Medi 2024], (b) sy'n achosi marwolaeth, neu niwed difrifol i, nifer fawr o unigolion, ac (c) y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi datgan yn ysgrifenedig ei fod yn ddigwyddiad mawr at ddibenion [penodi eiriolwyr ar gyfer dioddefwyr digwyddiadau mawr]'.

1.2.2 Dim ond pan fydd digwyddiad wedi achosi marwolaeth neu niwed difrifol i nifer fawr o unigolion y gellir penodi'r IPA, a hynny ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol ddatgan yn ysgrifenedig fod y digwyddiad yn un mawr at ddibenion penodi'r IPA. Y diffiniad deddfwriaethol hwn a'r datganiad ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gwahaniaethu rhwng y diffiniad o ddigwyddiad mawr at ddibenion yr IPA a'r diffiniad a ddefnyddir yn fwy cyffredin gan y gwasanaethau brys. Rydym yn disgwyl y bydd y datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan gov.uk.

1.2.3 Ceir digwyddiadau mawr ar sawl ffurf, a'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig sy'n cael penderfynu dynodi digwyddiad o'r fath.

1.2.4 Bydd digwyddiadau y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried eu bod yn ddigwyddiadau mawr yn nodweddiadol yn rhai graddfa fawr ac fel arfer byddant yn hawdd eu hadnabod. Mae'n debygol y byddant yn ddigwyddiadau un-tro sy'n dod i'r

amlwg yn gyflym ac sy'n cael effaith ar unwaith (e.e. digwyddiadau sy'n 'datblygu'n gyflym'). Disgwyliwn i'r digwyddiadau hyn ddigwydd mewn un lleoliad ac maent yn debygol o ddigwydd yn yr un cyfnod 24 awr. Byddai enghreifftiau hanesyddol o ddigwyddiadau sy'n 'datblygu'n gyflym' yng nghyd-destun yr IPA yn cynnwys trychineb Hillsborough, tân Tŵr Grenfell, ac ymosodiad Arena Manceinion.

1.2.5 Mae'r digwyddiadau uchod yn cael eu crybwyll yn aml fel enghreifftiau o ddigwyddiadau y byddent yn ddi-os wedi cael eu datgan yn ddigwyddiadau mawr at ddibenion yr IPA. Maent yn dangos maint y digwyddiadau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu i'r IPA eu cefnogi. Fodd bynnag, cafwyd digwyddiadau eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf *y gallent* fod wedi cael eu hystyried yn ddigwyddiadau mawr at ddibenion yr IPA, pe byddai digwyddiadau tebyg yn digwydd i'r dyfodol. Mae damwain Sioe Awyrennau Shoreham (2015), tram Croydon yn dod oddi ar y cledrau (2016) ac ymosodiad terfysgol Pont Llundain (2017) yn enghreifftiau o'r rhain. Enghreifftiau yw'r rhain, ac mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddisgresiwn helaeth dan y ddeddfwriaeth ynghylch a ddylid dynodi rhywbeth yn ddigwyddiad mawr at ddibenion yr IPA.

1.2.6 Ni fydd yr IPA yn cael ei benodi ar gyfer digwyddiadau un-tro, llai nac achosion sy'n ymwneud â marwolaethau unigol (oni bai y ceir hefyd nifer fawr o unigolion sydd wedi cael anaf difrifol), gan nad yw digwyddiadau o'r fath fel arfer yn cyflwyno'r un heriau â digwyddiadau graddfa fwy. Adlewyrchwyd y sefyllfa hon yn yr ymatebion i ymgynghoriad 2018 ar sefydlu IPA, pan deimlai llai na 10% o'r ymatebwyr y dylid defnyddio'r IPA ym mhob sefyllfa, beth bynnag fo'i maint. Fodd bynnag, er na fyddwn yn disgwyl i ddigwyddiadau llai fel arfer ddod o fewn cwmpas y cynllun IPA, yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r hawl i benderfynu hyn yn y pen draw.

1.2.7 Gan fod adran 34(2) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddigwyddiad mawr fod yn 'ddigwyddiad', ni fyddai cyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig dros amser, nad oes yr un ohonynt, yn unigol, yn cyrraedd y trothwy yn adran 34(2)(b), yn syrthio o fewn y diffiniad o ddigwyddiad mawr. Mae'r enghreifftiau mwyaf cyffredin o'r rhain yn ymwneud â gofal iechyd e.e., methiannau dro ar ôl tro sy'n arwain at farwolaethau mewn ysbyty.

1.2.8 Fodd bynnag, er y byddai cyfres o ddigwyddiadau dros amser, fel y rheini sy'n digwydd dros wythnosau, misoedd neu flynyddoedd yn syrthio y tu allan i gwmpas cefnogaeth IPA, efallai y gellid ystyried bod nifer o ddigwyddiadau sy'n digwydd yn gyflym ar ôl ei gilydd ac sydd â chysylltiad clir yn 'ddigwyddiad'. Un enghraifft o hyn fyddai Bomiau Llundain 7/7. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, mai'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n penderfynu a ddylid datgan digwyddiad o'r fath yn ddigwyddiad mawr.

1.2.9 Ceir sawl categori o ddigwyddiadau na fyddant fel arfer yn dod o fewn cwmpas yr IPA. Mae'r digwyddiadau hyn yn debygol o fod y tu allan i'r cwmpas oherwydd nad ydynt naill ai'n cyd-fynd â diben yr IPA (cefnogi dioddefwyr digwyddiadau mawr

sydd wedi arwain at nifer fawr o farwolaethau neu anafiadau); nid ydynt yn arwain at y trefniadau ymchwilio cymhleth fel y gwna digwyddiadau mawr eraill; neu oherwydd y byddent yn rhy fawr i arlwy cefnogaeth yr IPA/byddai trefniadau eraill y Llywodraeth yn cael eu rhoi ar waith.

1.2.10 Yn gyffredinol, ni fydd y canlynol o dod o fewn y cwmpas:

- Achosion unigol o farwolaethau neu anafiadau difrifol
- Iechyd pobl ac anifeiliaid - clefydau, pandemig, ymwrthedd gwrthficrobaidd (nid yw'r rhain yn hepgor digwyddiadau eraill mewn lleoliad gofal iechyd e.e. ymosodiad terfysgol mewn ysbyty neu gerllaw)
- Cymdeithasol - gweithredu diwydiannol, mewnfudo, cyffuriau, llygredd, troseddau graddfa fach
- Bygythiadau i'r wlad - er enghraifft, rhyfel, ymosodiadau ar y gyfnewidfa Stoc, sefydliadau ariannol (banciau) neu ymosodiadau seiber a/neu ffisegol ar linellau telathrebu
- Natur a'r Amgylchedd
- Ymosodiadau seiber

1.2.11 Er na fydd yr uchod yn dod o fewn y cwmpas yn gyffredinol, mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddant yn bodloni'r diffiniad yn adran 34(2). Er enghraifft, ni fyddai'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau o dan y categori natur a'r amgylchedd (stormydd, llifogydd, daeargrynfeydd, tywydd garw yn y gofod) yn dod o fewn y cwmpas. Fodd bynnag, pe ceid digwyddiad o'r math hwn oherwydd methiant system, fel atalfeydd llifogydd neu argae'n torri oherwydd nam gweithgynhyrchu gan arwain at ladd nifer fawr o unigolion, neu'u hanafu'n ddifrifol, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried datgan digwyddiad o'r fath yn ddigwyddiad mawr er mwyn penodi eiriolwr. Hefyd, er nad yw ymosodiadau seiber o fewn y cwmpas ar eu pen eu hunain, fe allai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried ei bod yn briodol penodi eiriolwr yn dilyn ymosodiad seiber sy'n achosi digwyddiad mawr, er enghraifft, damwain awyren yng Nghymru neu Loegr sy'n lladd nifer fawr o unigolion, neu'n eu hanafu'n ddifrifol.

1.2.12 Dim ond i gefnogi dioddefwyr digwyddiadau mawr ar ôl 18 Medi 2024 y gellir penodi'r IPA, sef dyddiad dechrau adran 34 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024. Edrych tuag at y dyfodol a wna'r IPA a'i fwriad yw rhoi cefnogaeth ar unwaith yn sgil digwyddiad nes cwblhau unrhyw archwiliad, cwest, neu ymchwiliad, rhywbeth na fyddai'n bosibl pe bai'r digwyddiad wedi digwydd yn y gorffennol.

1.2.13 Er na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol benodi IPA i roi cefnogaeth i ddioddefwyr mewn perthynas â digwyddiadau hanesyddol, gallai'r Eiriolwr Sefydlog gysylltu â dioddefwyr trychinebau blaenorol er mwyn dysgu oddi wrth eu profiadau fel rhan o'u swyddogaethau busnes fel arfer.

## 1.3 Ystyriaethau'r Ysgrifennydd Gwladol

1.3.1 Gellir adnabod digwyddiadau mawr yn aml yn ôl maint ac effaith y digwyddiad; y galw tebygol ar ymatebwyr lleol; a'r lefel eithriadol o adnoddau a ddefnyddir. Yng ngoleuni hyn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu a ddylid datgan digwyddiad mawr a phenodi eiriolwr ar gyfer y digwyddiad mawr hwnnw:

1. Nifer y marwolaethau
2. Nifer y bobl a anafwyd a maint eu hanafiadau
3. Y math o ddigwyddiad a'i faint
4. Lefel y gefnogaeth sydd ei hangen, gan gynnwys pwy neu beth sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn ymateb i'r digwyddiad
5. Lefel yr effaith ar y gymuned
6. Lles y cyhoedd.

1.3.2 Nid yw'r rhestr hon o ystyriaethau yn hollgynhwysfawr. Rhestr enghreifftiol ydyw ac mae'n cynnwys y ffactorau hanfodol y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried wrth benderfynu a ddylid datgan digwyddiad mawr. Rhaid i'r digwyddiad wastad fodloni'r diffiniad deddfwriaethol cyn y gellir ystyried unrhyw un o'r ffactorau hyn.

1.3.3 Nid oes pwys penodol i unrhyw un o'r ffactorau hyn, oherwydd y bydd yn amrywio yn ôl ffeithiau pob digwyddiad, ac nid oes angen i bob ffactor fod yn bresennol o anghenraid er mwyn i'r digwyddiad gael ei ddatgan yn ddigwyddiad mawr.

1.3.4 Rydym yn cydnabod efallai na fydd y math o ddigwyddiad yn hysbys pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud ei benderfyniad, e.e. ymchwiliad parhaus yn achos amheuaeth o ymosodiad terfysgol. Os felly, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael gwybod beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail yr wybodaeth sydd ar gael. Nid oes dim cyfyngiadau ar amseriad penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

1.3.5 Ni cheir dim trothwy penodol ar gyfer marwolaethau nac anafiadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried maint digwyddiadau yn y gorffennol a fyddai, fel yr amlinellir yn 1.2.5, wedi cyfiawnhau penodi eiriolwr ac y mae'r polisi IPA yn seiliedig arno. Er mai'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am y penderfyniad ac er na ellir rhagweld digwyddiadau yn y dyfodol, mae'r enghreifftiau a amlinellwyd yn flaenorol yn ganllaw dangosol i faint digwyddiadau.

1.3.6 Dan y ffactor lles y cyhoedd, mae’n debygol y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried cwestiynau fel:

1. Beth yw amgylchiadau'r dioddefwyr, a pha niwed a achoswyd iddynt?
2. Beth fyddai canlyniadau’r sgil-effeithiau ar yr wlad?
3. Pa mor gryf ydy teimladau'r cyhoedd am y digwyddiad?
4. A yw’n gymesur penodi eiriolwr?

1.3.7 Er bod lles y cyhoedd yn ffactor pwysig i'w ystyried wrth wneud penderfyniad i benodi eiriolwr, mae’n annhebygol y byddai eiriolwr yn cael ei benodi ar sail y ffactor hwn yn unig. Wrth ystyried lles y cyhoedd, ni cheir ymgynghori ffurfiol o unrhyw fath. Rydym yn cydnabod bod rhai o’r ffactorau yn oddrychol, ac na fyddai ehangder yr atebion iddynt wedi dod i'r amlwg yn llwyr adeg gwneud y penderfyniad - felly, fel yn 1.3.4, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail y wybodaeth sydd ar gael. Er y bydd unrhyw wybodaeth yn y cyswllt hwn yn cael ei hystyried yn briodol, sail y penderfyniad terfynol gyda’r Ysgrifennydd Gwladol.

1.3.8 Wrth ystyried a ddylid datgan digwyddiad mawr (a phenodi eiriolwr yn sgil hynny), gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gyngor, gan gynnwys gan swyddogion polisi a staff gweithredol (boed y rheini yn swyddogion y Llywodraeth neu'n ymatebwyr brys). Os yw’n dymuno, gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd ofyn am wybodaeth a barn gan yr Adran o’r Llywodraeth sydd â'r cyfrifoldeb polisi perthnasol (e.e., os yw’r digwyddiad yn ymwneud â gwrthdrawiad ar reilffordd, yr Adran Drafnidiaeth fyddai'r adran). Ar gyfer digwyddiadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â pholisi sy'n eiddo i’r Swyddfa Gartref, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Ysgrifennydd Cartref cyn gwneud datganiad a phenderfyniad i benodi ai peidio. Gall yr Eiriolwr Sefydlog hefyd argymell i'r Ysgrifennydd Gwladol y dylid datgan digwyddiad o bwys. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol i ddatgan digwyddiad.

## 1.4 Digwyddiadau Mawr yng Nghymru

1.4.1 Ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru, er mai gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder y mae'r pŵer i ddatgan digwyddiad mawr, mae adran 34(3) o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 yn gorchymyn na ellir dim ond gwneud y penderfyniad hwn ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Rhoddir ystyriaeth ofalus i farn Gweinidogion Cymru yn ystod yr ymgynghori hwn. Gwneir y gwaith ymgynghori hwn yn gyflym, i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cefnogaeth gan IPA yn brydlon.

## 1.5 Apeliadau

1.5.1 Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r pŵer i ddatgan digwyddiad mawr a phenodi eiriolwr ar gyfer y digwyddiad mawr hwnnw. Gall y penderfyniad hwn gael ei herio gan mai egwyddorion cyfraith gyhoeddus sy'n ei lywodraethu. Ni cheir peirianwaith penodol i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â datgan digwyddiad ac felly byddai unrhyw her o'r fath yn digwydd drwy adolygiad barnwrol.

1.5.2 Rydym yn disgwyl y bydd y Senedd hefyd yn dwyn y Llywodraeth i gyfrif am unrhyw benderfyniad a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac y bydd hefyd yn defnyddio'r peirianweithiau sydd ar gael iddi i'r eithaf, fel cwestiynau brys, cwestiynau seneddol, a cheisiadau am ddadleuon.

# Rhan 2: Penodi'r Eiriolwr Sefydlog ar gyfer Digwyddiad Mawr

Mae'r rhan hon yn cyflwyno’r manylion sy'n ymwneud â phenodi'r Eiriolwr Sefydlog ar gyfer digwyddiad mawr, gan gynnwys y cefndir, y diffiniadau, y prosesau a'r apeliadau perthnasol.

## 2.1 Cefndir

2.1.1 Mae Rhan 2 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i benodi unigolyn yn Eiriolwr Sefydlog parhaol ar gyfer dioddefwyr digwyddiadau mawr. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gallu ategu gwytnwch yr IPA drwy benodi eiriolwyr ychwanegol i helpu dioddefwyr yn dilyn digwyddiad mawr penodol os bydd angen.

2.1.2 Pan fydd yr Eiriolwr Sefydlog yn gweithio'n annibynnol, cyfeirir ato fel yr IPA. Fodd bynnag, wrth weithredu gydag eiriolwyr ychwanegol eraill, cyfeirir at y grŵp gyda'i gilydd fel yr IPA, a bydd y termau 'Eiriolwr Sefydlog', ‘eiriolwr arweiniol' ac 'eiriolwyr ychwanegol' yn dynodi swyddi/rolau’r priod eiriolwyr.

## 2.2 Penodi Eiriolwr

2.2.1 Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu a yw digwyddiad yn ddigwyddiad mawr ac a ddylid penodi eiriolwr.

2.2.2 Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn datgan bod digwyddiad yn ddigwyddiad mawr o dan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, bydd wedyn yn penderfynu a ddylid penodi eiriolwr i gefnogi'r dioddefwyr. Disgwyliwn i’r broses o wneud y penderfyniadau gael ei chyfuno ac rydym o'r farn ei bod yn annhebygol iawn y byddai sefyllfa’n codi lle mae digwyddiad mawr o dan Ran 2 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 yn cael ei ddatgan ond nad yw eiriolwr wedyn yn cael ei benodi.

2.2.3 Yn dilyn digwyddiad, mae'n bwysig bod y penderfyniad i ddatgan digwyddiad mawr a phenodi eiriolwr ar gyfer y digwyddiad mawr hwnnw yn cael ei wneud yn effeithlon, er mwyn gallu rhoi cefnogaeth brydlon i’r dioddefwyr. Mae’n hanfodol nad yw'r broses hon yn feichus nac yn rhy fiwrocrataidd. Er bod y Llywodraeth yn gwerthfawrogi'r farn a gyflwynwyd y dylai dioddefwyr eu hunain fod yn rhan o'r penderfyniad cychwynnol ar benodi, yn ymarferol, byddai'n anodd iawn dod o hyd i

bobl berthnasol i ymgynghori â nhw a dod i gonsensws yn ddigon cyflym er mwyn gallu rhoi cefnogaeth yn brydlon.

2.2.4 Bwriad y Llywodraeth yw mai'r Eiriolwr Sefydlog fydd yr eiriolwr cyntaf i gael ei benodi i ddigwyddiad mawr. Bydd cael Eiriolwr Sefydlog yn y swydd yn barhaol yn sicrhau bod y broses benodi ar gyfer digwyddiad mawr yn digwydd mor effeithlon â phosibl. Er bod swydd yr Eiriolwr Sefydlog yn un barhaol, er mwyn rhoi cymorth uniongyrchol i ddioddefwyr mewn digwyddiad, rhaid eu penodi i'r digwyddiad penodol hwnnw yn gyntaf.

2.2.5 Os nad yr Eiriolwr Sefydlog yw'r eiriolwr cyntaf a benodir (os nad yw ar gael er enghraifft), bydd yr unigolyn a ddewisir yn cael ei benodi i'r swydd honno ar sail ei gefndir a'i brofiad, neu oherwydd ei fod yn meddu ar wybodaeth neu sgiliau arbenigol mewn perthynas â'r digwyddiad penodol. Mae esiampl enghreifftiol o'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y penodiad cychwynnol hwn ar gael yn **Atodiad A.**

2.2.6 Uchelgais y Llywodraeth yw i'r broses o benodi eiriolwr ar gyfer digwyddiad fynd rhagddi mor llyfn ac effeithlon â phosibl. Bydd unrhyw broses o benodi eiriolwr yn sensitif i'r prosesau sefydledig sy'n dilyn digwyddiad mawr (megis defnyddio Swyddogion Cyswllt Teulu). Bydd amseriad cyswllt yr eiriolwr gyda'r dioddefwyr yn adlewyrchu hyn.

## 2.3 Digwyddiadau Mawr yng Nghymru

2.3.1 Fel gyda'r pŵer i ddatgan digwyddiad, ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru, mae adran 36(2) o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 yn gorchymyn, er bod y pŵer i benodi eiriolwr yn aros gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, ni ellir dim ond gwneud y penderfyniad hwn ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Rhoddir ystyriaeth ofalus i farn Gweinidogion Cymru yn ystod yr ymgynghori hwn, a gwneir y penderfyniadau drwy ystyried lles gorau'r dioddefwyr. Gwneir y gwaith ymgynghori hwn yn gyflym, i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cefnogaeth gan IPA yn brydlon.

# Rhan 3: Penodi Eiriolwyr Ychwanegol ar gyfer Digwyddiad Mawr

Mae'r rhan hon yn cyflwyno manylion y broses o benodi eiriolwyr ychwanegol ar gyfer digwyddiad mawr.

## 3.1 Cefndir

3.1.1 Oherwydd maint neu gymhlethdod digwyddiad mawr, mae'n bosibl y bydd gofyn ategu adnoddau'r IPA. Er bod ysgrifenyddiaeth yr IPA yno i roi cymorth, mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd un eiriolwr yn ddigon i gefnogi nifer y dioddefwyr na'u hanghenion penodol. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol felly benodi eiriolwyr ychwanegol ar gyfer digwyddiad mawr, lle bo angen, er mwyn gwella'r gwytnwch, yr amrediad sgiliau, a helpu i sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel i ddioddefwyr.

3.1.2 Nid oes cyfyngiad ar nifer yr eiriolwyr y gellir eu penodi ar gyfer digwyddiad mawr. Fodd bynnag, ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol dim ond yn ymarfer y pŵer hwn pan fydd hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur. Er nad oes terfyn uchaf ar nifer yr eiriolwyr y gellir eu penodi, bydd y nifer yn gymesur â maint y digwyddiad.

3.1.3 Drwy gystadleuaeth agored a theg, byddwn yn recriwtio cofrestr o unigolion sy'n addas i'w penodi'n eiriolwyr, ac y gellir galw arnynt os ceir digwyddiad mawr sy'n gofyn am gymorth ychwanegol. Bydd yr unigolion hyn yn cael eu harchwilio'n briodol (gan gynnwys gwiriadau diogelwch a DBS) a byddant yn cael hyfforddiant ymlaen llaw. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd benodi unigolyn, nad yw ar y rhestr o eiriolwyr sydd wedi'u recriwtio ymlaen llaw, i fod yn eiriolwr ychwanegol. Rydym yn rhagweld y gallai hyn fod yn ofynnol, er enghraifft, ar gyfer digwyddiadau lle mae angen gwybodaeth arbenigol.

## 3.2 Penodi Eiriolwyr Ychwanegol

3.2.1 Mae dwy ran i'r broses benderfynu ar gyfer eiriolwyr ychwanegol. Yn gyntaf, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu a oes angen penodi eiriolwyr ychwanegol, ac os felly, faint o eiriolwyr ychwanegol sydd eu hangen. Yn ail, byddant yn penderfynu pwy i'w penodi (fel arfer o'u rhestr o ddarpar eiriolwyr sydd wedi'u recriwtio a'u hyfforddi ymlaen llaw).

3.2.2 Wrth benderfynu a oes angen eiriolwyr ychwanegol, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried ffactorau fel maint y digwyddiad a nifer y dioddefwyr, unrhyw arbenigedd penodol a allai fod yn werthfawr, a barn y dioddefwyr. Mae'n debygol y byddent hefyd yn ystyried barn yr eiriolwr cyntaf a benodir.

3.2.3 Wrth benderfynu pwy yw'r unigolyn(ion) mwyaf priodol i'w penodi, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried ffactorau fel pwy sydd â'r sgiliau neu'r profiad priodol ar gyfer y digwyddiad, pwy sydd yn y lleoliad gorau yn ddaearyddol i ddioddefwyr / safle'r digwyddiad, a barn y dioddefwyr a chyngor yr eiriolwr cychwynnol. Nid yw'r rhain yn enghreifftiau cyflawn, ac mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddisgresiwn i ystyried ffactorau eraill.

3.2.4 Wrth benodi unrhyw eiriolwyr ychwanegol, efallai y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol am ystyried barn y dioddefwyr. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud hyn drwy ofyn barn yr eiriolwr cyntaf (yr Eiriolwr Sefydlog mae'n debyg) am benodi eiriolwyr ychwanegol. Rhan o rôl yr eiriolwr cyntaf a benodir (gan ei fod yn debygol o fod wedi cael ei benodi cyn i benderfyniadau ar unrhyw eiriolwyr ychwanegol gael eu gwneud) yw casglu barn dioddefwyr yn anffurfiol drwy eu cyswllt â nhw. Gan ddefnyddio eu hymwybyddiaeth o'r sefyllfa, bydd yr eiriolwr yn dweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol beth fydd ar ddioddefwyr ei angen gan unrhyw eiriolwyr ychwanegol. Bydd pob cysylltiad â'r dioddefwyr yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n sensitif i'w hanghenion a'u hamgylchiadau ar y pryd.

3.2.5 Wrth ystyried penodi eiriolwyr ychwanegol, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd gael cytundeb gan adran y Llywodraeth sydd â'r cyfrifoldeb polisi perthnasol, neu gan Weinidogion Cymru os yw'r cyfrifoldeb polisi wedi'i ddatganoli. Bydd hyn yn helpu i gadarnhau addasrwydd gwneud hynny ac a oes unrhyw fathau eraill o gefnogaeth yn cael eu defnyddio i helpu dioddefwyr y digwyddiad.

3.2.6 Pan fydd mwy nag un eiriolwr wedi'i benodi ar gyfer yr un digwyddiad mawr, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi un yn eiriolwr arweiniol. Gan ein bod yn disgwyl i'r Eiriolwr Sefydlog gael ei benodi'n gyntaf ar ôl datgan digwyddiad mawr, nhw felly fydd yr eiriolwr arweiniol ar gyfer y rhan fwyaf o ddigwyddiadau mawr (cyn belled ag y bo eiriolwyr ychwanegol yn cael eu penodi hefyd). Fodd bynnag, gall yr Ysgrifennydd Gwladol enwebu unrhyw un o'r eiriolwyr fel yr arweinydd. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer sefyllfaoedd prin pan nad yw'r Eiriolwr Sefydlog ar gael. Rhaid i'r eiriolwyr eraill roi sylw i gyfarwyddiadau a rodda'r eiriolwr arweiniol wrth arfer eu swyddogaethau.

3.2.7 Os bydd nifer o ddigwyddiadau mawr yn digwydd ar yr un pryd, byddai'r Eiriolwr Sefydlog yn cael ei benodi fel yr eiriolwr arweiniol i'r ddau, os yw ar gael, ac yn ddibynnol ar faint y digwyddiadau. Gellid penodi eiriolwyr ychwanegol i gefnogi'r Eiriolwr Sefydlog i ddelio â'r ymatebion i nifer o ddigwyddiadau. Byddai'r

Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried sut i sicrhau bod digon o gymorth ysgrifenyddol ar gael mewn sefyllfa o'r fath.

3.2.8 Ar unrhyw adeg yn dilyn digwyddiad mawr, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penodi nifer o eiriolwyr, fe allent leihau nifer yr eiriolwyr sy'n gweithio i gefnogi’r dioddefwyr. Gall hyn fod oherwydd bod llai o angen am gefnogaeth, neu oherwydd cyfnod tawelach yn y prosesau ymchwilio sy'n dilyn digwyddiad mawr (e.e. bwlch rhwng cwblhau'r archwiliadau a dechrau ymchwiliad). Wrth benderfynu lleihau nifer yr eiriolwyr ychwanegol, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried anghenion a barn y dioddefwyr a chyngor yr Eiriolwr Sefydlog neu’r eiriolwr arweiniol. Mae rhagor o wybodaeth am ddirwyn y gefnogaeth i ben yn Rhan 4 isod.

## 3.3 Digwyddiadau Mawr yng Nghymru

3.3.1 Fel gyda'r pŵer i benodi'r Eiriolwr Sefydlog, os penderfynir bod angen eiriolwyr ychwanegol ar gyfer digwyddiad sy’n digwydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru, dan adran 36(2) o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, dim ond ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru y gellir eu penodi. Rhoddir ystyriaeth ofalus i farn Gweinidogion Cymru yn ystod yr ymgynghori hwn, a gwneir y penderfyniadau drwy ystyried lles gorau'r dioddefwyr. Gwneir y gwaith ymgynghori hwn yn gyflym, i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cefnogaeth gan IPA yn brydlon. Fel y nodir yn 3.2.5, os yw’r cyfrifoldeb polisi sy'n ymwneud â'r digwyddiad wedi’i ddatganoli, rhaid i Weinidogion Cymru gytuno â'r penodiad.

# Rhan 4: Dirwyn Cefnogaeth IPA i Ben

## 4.1 Dirwyn Cefnogaeth IPA i Ben

4.1.1 Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn disgwyl y bydd digwyddiad mawr (ac felly gefnogaeth gan IPA) yn para o’r amser yn union ar ôl y digwyddiad nes cwblheir yr archwiliadau, y cwest, yr ymchwiliad neu beirianwaith adolygu arall. Efallai na fydd hyn yn wir am bob penodiad, oherwydd y bydd hyd y gefnogaeth gan IPA yn dibynnu ar anghenion ac amgylchiadau'r digwyddiad penodol a'i ddioddefwyr.

4.1.2 Ar ôl cwblhau’r archwiliad / cwest / ymchwiliad / mecanwaith adolygu, bydd yr eiriolwr/eiriolwyr a benodwyd yn dirwyn i ben eu cefnogaeth i'r digwyddiad. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn hysbysu'r eiriolwr/eiriolwyr y bydd eu penodiad i’r digwyddiad yn cael ei ddirwyn i ben yn unol â thelerau eu penodiad.

4.1.3 Fel yr amlinellir yn adran 3.2.7, ar unrhyw adeg yn dilyn digwyddiad mawr, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penodi nifer o eiriolwyr, fe allent leihau nifer yr eiriolwyr sy'n cefnogi dioddefwyr. Yn ystod oes y digwyddiad, gall fod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol leihau nifer yr eiriolwyr ychwanegol sy'n darparu cefnogaeth ar yr adeg honno, oherwydd y bydd gwahanol bwyntiau o'r broses yn debygol o fod angen gwahanol lefelau o gefnogaeth. Felly, er y gallai’r eiriolwr arweiniol fod yn dal i gynnig cefnogaeth i ddioddefwyr mewn digwyddiad, mae’n bosibl y bydd penodiad unrhyw eiriolwyr ychwanegol wedi cael ei derfynu cyn y datganiad swyddogol bod cefnogaeth yr IPA yn cael ei ddirwyn i ben.

4.1.4 Ar ôl datgan bod y gefnogaeth yn dod i ben, os oes gan y dioddefwyr unrhyw beth arall i'w godi gyda'r IPA, gallant gyfeirio ymholiadau at yr ysgrifenyddiaeth neu'r Eiriolwr Sefydlog. Bydd yr Eiriolwr Sefydlog yn gallu cysylltu â'r dioddefwyr, ond ni fydd mwyach yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol mewn perthynas â'r digwyddiad.

4.1.5 Os penodwyd yr Eiriolwr Sefydlog i'r digwyddiad, fel yn y rhan fwyaf o achosion, bydd wedyn yn trosglwyddo’n ôl o'i swyddogaethau penodedig i’w swyddogaethau busnes fel arfer.

## 4.2 Terfynu Penodiad Eiriolwr

4.2.1 Ar ôl i gefnogaeth yr IPA ddod i ben, bydd penodiad unrhyw eiriolwyr penodedig yn cael ei derfynu o dan delerau eu penodiad.


4.2.2 Heblaw pan gaiff cefnogaeth ei dirwyn i ben, ceir amgylchiadau eraill pan ellir dirwyn penodiad eiriolwr i ben. Mae Adran 37(2) o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol derfynu penodiad eiriolwr ar unrhyw sail sy’n briodol yn ei dyb ef. Ymysg esiamplau o’r seiliau hyn fyddai pryderon ynghylch perfformiad, euogfarn am drosedd, neu newid personol mewn amgylchiadau.

4.2.3 Mae'r pŵer hwn yn fwriadol eang - bydd hyn yn rhoi'r disgresiwn angenrheidiol i'r Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau ei fod yn gallu gweithredu er lles dioddefwyr mewn amgylchiadau annisgwyl. Rydym hefyd yn disgwyl i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd fel y rhai a amlinellir yn adran 3.2.7.

4.2.4 Yn ogystal, gellir dirwyn penodiad eiriolwr i ben hefyd os bydd yn rhoi rhybudd ei fod yn ymddiswyddo.

# Atodiadau

## Atodiad A: Llwybr Penderfyniad ynghylch Penodi Eiriolwyr



**© Hawlfraint y Goron 2024**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.